# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Deintyddfa Crosskeys / Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 2 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 3 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78903-198-0

© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. What we did ........................................ 5

2. Summary of our inspection ........................................ 6

3. What we found ........................................ 7

   Quality of patient experience ........................................ 8

   Delivery of safe and effective care ........................................ 12

   Quality of management and leadership ........................................ 21

4. What next? ........................................ 23

5. How we inspect dental practices ........................................ 24

   Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection ........................................ 25

   Appendix B – Immediate improvement plan ........................................ 26

   Appendix C – Improvement plan ........................................ 28

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Crosskeys yn 15–19 Risca Road, Crosskeys, NP11 7BT, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 2 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Crosskeys yn bractis sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, sy'n canolbwyntio ar y claf, ac sy'n darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis deintyddol yn cydymffurfio'n llwyr â'r safonau a'r rheoliadau perthnasol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn cynnig cyfleusterau clinigol a oedd wedi'u cyfarparu'n dda ac i'w gweld yn lân ac yn daclus.
- Roedd y cleifion yn cael eu trin â pharch ac roeddent yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gan y practis systemau ar waith i gasglu adborth gan gleifion mewn modd gweithredol, ac roedd yn ymdrin â chwynion gan gleifion.
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol ar ôl pob apwyntiad a bod caniatâd cleifion a chynlluniau triniaeth yn cael eu cofnodi.
- Dylid rhoi rhaglen gadarn ar waith o ran archwiliadau clinigol ac adolygiadau gan gymheiriaid, gan gynnwys archwiliad rheoli heintiau blynyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.
- Dylai'r practis sicrhau ei fod yn meddu ar y cofnodion imiwneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.
- Rhaid i'r practis adolygu ei ffolder ymbelydredd fel ei bod yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Crosskeys yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Crosskeys a'r cylch. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys pum deintydd, dau hylenydd rhan-amser, pum nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, rheolwr y practis, dau dderbynnydd rhan-amser ac un glanhawr.

Yn ogystal, mae orthodontydd yn mynychu'r practis un diwrnod yr wythnos.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar gyfer y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Aeth y practis ati i gael adborth gan gleifion trwy ddarparu ffurflenni adborth yn yr ystafell aros.

Roedd yr adborth a gafwyd o ddeg holiadur cleifion yn gadarnhaol, a gwnaeth cleifion gyfeirio at agwedd gyfeillgar a phroffesiynol staff y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Nid oes angen unrhyw welliant"*
>
> *"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth ar hyn o bryd"*
>
> *"Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar ac yn ddymunol"*
>
> "Dwi wedi gweld bod yr holl staff yn gymwynasgar iawn, yn gyfeillgar ac yn broffesiynol ar bob adeg. Rwy'n fodlon iawn ar yr holl driniaeth a gefais"

### Cadw'n iach

Roedd amrediad da o wybodaeth hybu iechyd deintyddol ar gael yn nwy ardal aros y practis, a oedd yn golygu bod gan y cleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cefnogi o ran sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd hefyd gwybodaeth ynglŷn â'r practis, a oedd yn cynnwys ffotograffau o'r deintyddion. Roedd rhestrau prisiau triniaethau deintyddol preifat a rhai'r GIG yn cael eu harddangos yn glir yn y ddwy ardal aros. Gwnaethom arsylwi ar yr arwyddion 'Dim Ysmygu' a oedd yn cael eu harddangos yn y practis.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Gwnaethom arsylwi ar staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur o'r un farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis deintyddol.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff. Gallai galwadau ffôn hefyd gael eu derbyn gan staff yn breifat ac i ffwrdd o gleifion.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth, a'u bod wedi derbyn cymorth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir ynghylch eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys opsiynau triniaeth sydd ar gael, eu costau, a sut y byddai'r costau hyn yn cael eu cyfrifo.

Roedd y practis yn darparu ystod o driniaethau deintyddol preifat ac ar gyfer y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat ar gael i'w gweld yn yr ardaloedd aros ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, yn ogystal â chostau am driniaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis wrthi yn adolygu ei wefan ond, ar hyn o bryd, rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad yn unig a ddarperir arni. Yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod nad oes dyddiad targed o ran cwblhau'r gwaith hwn. Unwaith y bydd wedi'i llunio, bydd angen i'r practis sicrhau bod cynnwys y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.[1]

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis bob amser. Roedd arwydd yn ardal y dderbynfa yn hysbysu bod gwybodaeth y GIG ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

---

[1]Safon 1.3.3 o Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn hysbysu cleifion pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr ac, os byddai angen, byddent yn cynnig gwneud trefniadau eraill.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt. Roedd manylion ynghylch sut y gallai cleifion gael mynediad at ofal brys pan fo'r practis ar gau yn cael eu harddangos y tu mewn a thu allan i'r practis. Roedd y manylion hyn hefyd ar gael ar neges peiriant ateb y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cyfleoedd cyfartal, polisi anabledd, a pholisi bwlio ac aflonyddu ar waith.

Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad dau lawr. Roedd y cleifion a oedd ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad at yr ystafell aros a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod. Yn ogystal, roedd toiled ar gyfer cleifion anabl ar y llawr gwaelod a oedd yn cynnwys rheiliau cymorth priodol ar eu cyfer.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ynghylch sut i leisio pryder (cwyn) ynglŷn â thriniaeth breifat a thriniaeth y GIG yn cael ei harddangos yn ardal y dderbynfa. Er bod posteri bach yn cyfeirio at 'Gweithio i Wella'[2] yn y ddwy ardal aros, nid oedd unrhyw gyfeiriad at

---

[2] 'Gweithio i Wella' yw'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, o ran cyrff y GIG

y broses GIG hon yn y weithdrefn ysgrifenedig. Gwnaethom gynghori y dylai'r wybodaeth i gleifion mewn perthynas â'r prosesau cwyno ar gyfer triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG gael ei gosod mewn dogfennau ar wahân a dylid sicrhau bod dogfen y GIG yn unol â 'Gweithio i Wella'. Gwnaethom hefyd argymell, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, y dylai'r weithdrefn ysgrifenedig ynghylch triniaeth breifat gynnwys manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.[3] Gwnaeth y practis gytuno i gael posteri a thaflenni 'Gweithio i Wella' o'r bwrdd iechyd prifysgol. Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn ynghylch y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y gofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion. Yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod, roedd gan y practis flwch awgrymiadau a nifer o holiaduron boddhad cleifion. Gwnaethom nodi bod y practis yn cofnodi cwynion a dderbynnir a'r ffordd iddynt gael eu datrys. Gwnaethom hefyd nodi eu bod yn adolygu unrhyw themâu cyffredin ac yn mynd i'r afael â'r rhain. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gofnodi unrhyw bryderon anffurfiol neu ar lafar a dderbynnir.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddaru ei bolisi a gwybodaeth am gwyno ar gyfer triniaeth breifat er mwyn cynnwys yr holl fanylion cyswllt perthnasol, gan gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

---

yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[3] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn ymddangos yn lân a thaclus. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o welliannau a oedd eu hangen ar gofnodion clinigol cleifion ac ar y pecyn dadebru mewn argyfwng.

### Gofal diogel

Roedd y ffeil ymbelydredd yn cynnwys nifer cyfyngedig o ddogfennau. Roedd yn aneglur pwy oedd Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd y practis ac nid oedd llawlyfrau cyfarwyddiadau ar gael ar gyfer y cyfarpar ymbelydredd. Nid oedd tystiolaeth bod y cyfarpar wedi'i wirio a'i ardystio ers 2014.

Mae angen i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag hepatitis B er mwyn amddiffyn cleifion a'u hunain rhag heintiau.[4] Nid oedd y practis yn gallu darparu cofnodion imiwneiddio un deintydd ac un nyrs ddeintyddol.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r ffeil a oedd yn cynnwys dogfennau mewn perthynas â chyfarpar ymbelydredd y practis yn ogystal â'r cofnodion imiwneiddio o dan ein proses sicrwydd ar unwaith.

Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

[4] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda yn ôl pob golwg ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus.  Teimlodd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod y practis yn lân iawn yn eu barn nhw.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym ei fod wedi cwblhau'r profion dyfeisiau cludadwy ar gyfer y practis. Yn ôl canllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mewn sawl amgylchedd â risg isel, gall unigolyn cymwys gynnal profion dyfeisiau cludadwy ac, os oes ganddo wybodaeth a hyfforddiant digonol, gall hwn fod yn aelod synhwyrol o staff sy'n cwblhau arolygiadau gweledol. Fodd bynnag, wrth gynnal gwaith arolygu a phrofion ynghyd, a lle mae cleifion a staff yn dod i gysylltiad â'r dyfeisiau trydanol, rhaid iddynt gael eu profi gan unigolyn cymwys.  Rydym yn argymell y dylai'r practis cyflogi unigolyn cymwys i gwblhau profion dyfeisiau cludadwy trylwyr i sicrhau defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol bach o fewn y practis. Darparodd y practis dystiolaeth o brofion larymau a diffoddwyr tân. Gellid gweld cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn glir.

Er y gwelsom nifer o anfonebau yn ymwneud â gwiriadau ar ddiffoddwyr tân a phrofion larymau tân yn y practis, nid oedd tystiolaeth bod cytundeb cynnal a chadw ffurfiol ar waith. Yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom ysgrifennu at y practis i geisio sicrwydd ar unwaith bod camau'n cael eu cymryd i gadarnhau bod cytundeb priodol ar waith.

Nid oedd tystiolaeth o dystysgrif cynnal a chadw nwy.  Yn ystod yr arolygiad, fe'n hysbyswyd nad oedd y peiriannydd yn gallu ei hanfon ymlaen cyn diwedd y diwrnod gwaith. Bellach, mae'r practis wedi darparu'r dogfennau perthnasol.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus.

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel.  Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Gwnaethom nodi fod gan y practis lyfr 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.  Roedd polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr ar waith a gwnaethom nodi'r poster iechyd a diogelwch yn ardal y dderbynfa.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rydym yn argymell, yn unol â chanllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y dylai'r practis gyflogi unigolyn addas i gwblhau profion dyfeisiau cludadwy trylwyr i sicrhau defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol bach o fewn y practis.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar y llawr gwaelod ac ar y llawr cyntaf ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[5] Roedd gan y ddwy ystafell sinciau a phowlenni neilltuedig ar gyfer dadheintio. Fodd bynnag, nid oedd gan yr un ohonynt gyfleusterau golchi dwylo neilltuedig ac rydym yn argymell y dylai'r practis trefnu bod sinciau o'r fath yn cael eu gosod yn y ddwy ystafell.

Ni welsom unrhyw ddilysiad ar gyfer y glanhawyr uwchsonig a gwnaethom nodi mai ym mis Mawrth 2016 oedd yr arolygiad cynnal a chadw diwethaf o ran y peiriannau awtoclaf. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynghori y dylai fod bwlch nad yw'n fwy na 14 mis rhwng arolygiadau. Argymhellwn, yn unol â chanllawiau, y dylai'r practis drefnu arolygiadau cynnal a chadw o'i holl gyfarpar dadheintio.

Gwelsom dystiolaeth fod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau i gadarnhau bod eu hyfforddiant dadheintio'n gyfredol. Er nad oedd gan y practis brotocol hyfforddiant dadheintio, nid oedd cofnodion wedi'u cwblhau ac nid oedd unrhyw gyfeiriad at wirio protocolau. Rhaid i'r practis sicrhau bod y protocol hwn yn cael ei gwblhau.

---

[5] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom dystiolaeth o dystysgrif cynnal a chadw o ran cywasgydd y practis, ond nid oedd tystiolaeth o wiriadau dyddiol. Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cwblhau a'u cofnodi.

Ni welsom dystiolaeth fod y practis wedi cwblhau unrhyw archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Rydym yn argymell y dylid cwblhau archwiliadau o'r fath yn flynyddol a bod unrhyw ganlyniadau/casgliadau yn cael eu cofnodi ynghyd â chynllun gweithredu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylai'r practis osod sinciau golchi dwylo neilltuedig ar gyfer staff yn y ddwy ystafell ddadheintio.

Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, rydym yn argymell y dylai'r practis drefnu rhaglen o arolygiadau cynnal a chadw o'i holl gyfarpar dadheintio.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau dyddiol o'r cywasgydd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi.

Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, rydym yn argymell y dylid cwblhau archwiliadau rheoli heintiau yn flynyddol a bod unrhyw ganlyniadau/casgliadau yn cael eu cofnodi ynghyd â chynllun gweithredu.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael yn y practis ac roeddent yn cael eu cadw mewn modd priodol. Er bod system ar waith i helpu sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewygu/cwympo), canfuom fod rhai ohonynt yn rhy hen i'w defnyddio. Gwnaethom gael gwared ar y rhain yn ystod yr arolygiad. Pan

wnaethom dynnu sylw'r practis at y ffaith fod rhai o'r cyfarpar yn rhy hen i'w defnyddio, prynwyd stoc newydd yn eu lle. Yn unol â safonau'r Cyngor Dadebru (DU),[6] rydym yn argymell y dylai'r practis gyflwyno system effeithiol sy'n cynnwys gwirio bod cyffuriau a chyfarpar a ddefnyddir mewn argyfwng yn aros o fewn y dyddiad defnyddio a'u bod yn barod i'w defnyddio. Canfuom nad oedd gan y practis bolisi dadebru. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i rôl pe bai argyfwng meddygol yn digwydd, ac rydym yn argymell y dylid datblygu polisi o'r fath a'i ddosbarthu i'r holl staff. Gwnaethom hefyd argymell y dylid glanhau'r oergell lle roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cadw.

Gwelsom gofnodion yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd, ac eithrio un deintydd. Pan dynnwyd sylw'r practis at y mater hwn, cafodd y deintydd ei gofrestru ar gwrs ar unwaith.

Roedd gan y practis dri swyddog cymorth cyntaf a oedd i gyd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau ansawdd a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Dylai'r practis ddatblygu polisi dadebru a'i ddosbarthu i bob aelod o staff.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Y rheswm am hyn yw bod polisïau amddiffyn priodol ar waith a bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd tri aelod o'r staff clinigol

[6] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

wedi derbyn hyfforddiant diweddar ynglŷn ag amddiffyn oedolion agored i niwed. Rydym yn argymell y dylai'r practis sicrhau bod staff sydd â mynediad at gleifion yn cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion. Gwnaethom nodi bod poster yn swyddfa rheolwr y practis / yr ystafell staff gyda chyfeiriadau a rhifau ffôn timau diogelu'r awdurdod lleol, ond nid oedd y polisïau ysgrifenedig yn cynnwys yr holl fanylion hyn. Gwnaethom gynghori y dylai'r practis ystyried adlewyrchu'r manylion yn y polisïau â'r manylion ar y poster.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis. Cwblhawyd gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff (gyda thri chais ar y gweill).

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gan y staff fynediad at a'u bod yn cwblhau hyfforddiant diogelu perthnasol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r timau deintyddol.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000,[7] roedd pob deintydd a hylenydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Bydd yr holl nyrsys deintyddol yn mynychu cwrs ym mis Ionawr 2018.

Roedd yr holl offer radiolegol yn gweithio ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Er inni nodi pwy oedd y Goruchwyliwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd, roedd yn aneglur pwy oedd â'r cyfrifoldeb presennol am rôl y Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd. Nid oedd y ffolder ymbelydredd yn cynnwys unrhyw dystysgrifau'r Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd dyddiedig ar ôl 2014. Roedd tystiolaeth bod profion rheolaidd wedi eu cwblhau

[7] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

ym mis Mehefin 2017, ond roedd y dystysgrif archwiliad beirniadol wedi dod i ben. Nid oedd y ffolder yn cynnwys unrhyw lawlyfr cyfarwyddyd ac roedd yn cynnwys yr wybodaeth finimol. Argymhellir bod y practis yn adolygu ei ffolder ymbelydredd i sicrhau ei bod yn cynnwys yr wybodaeth gyfredol a pherthnasol, gan gynnwys nodi Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd a llawlyfrau cyfarwyddyd. Fel ymateb i'r pryderon hyn ac yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom ysgrifennu at y practis yn gofyn iddo gymryd camau unioni i ymdrin â'r pryderon uniongyrchol a godwyd.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Ar wahân i'r sicrwydd ansawdd delweddau, nid oedd tystiolaeth bellach o'r practis yn ymgymryd ag archwiliadau ychwanegol. Rydym yn argymell y dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer ymgymryd ag amrediad eang o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir y dylai'r practis gyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel y bo'n briodol.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data ar waith. Roedd ffeiliau'n cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd yr holl ffeiliau electronig yn cael eu cadw wrth gefn yn rheolaidd ac roedd gwybodaeth am gleifion nad sy'n electronig yn cael ei storio mewn cwpwrdd dan glo.

Yn ystod yr arolygiad, canfuom fod y drws i'r ystafell belydr-X ar agor ac nad oedd wedi'i gloi, a gallai cleifion gael mynediad ati'n hawdd yn ogystal â chael mynediad at gyfrifiadur a biniau offer miniog. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd y cyfrifiadur wedi'i gloi a'i fod yn arddangos gwybodaeth am

gleifion. Gwnaethom argymell y dylid gosod clo i sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at yr ystafell o dan oruchwyliaeth aelod o staff yn unig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir y dylai'r practis osod clo ar ddrws yr ystafell belydr-X i sicrhau mai gyda goruchwyliaeth aelod o staff yn unig y gall cleifion gael mynediad at yr ystafell.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da. Fodd bynnag, canfuom fod hepgoriadau ar adegau, ac nid oedd cofnod o'r canlynol:

- Caniatâd gwybodus i driniaeth
- Lefelau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol[8]
- Sgrinio ar gyfer canser y geg
- Nid oedd pelydrau-X cleifion bob amser wedi'u cyfiawnhau neu eu hadrodd

Yn ogystal, rhaid i'r practis:

- Sefydlu amlder pelydrau-X
- Cofnodi unrhyw adferiadau CEREC[9] yn nodiadau'r cleifion

[8] Mae asesiad gofalus o'r meinweoedd periodontol yn rhan hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir yr Archwiliadau Periodontol Sylfaenol fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf.

[9] Mae CEREC neu Cerec (Chairside Economical Restoration of Esthetic Ceramics, neu CEramic REConstruction) yn ddull o ddeintyddiaeth CAD/CAM a ddatblygwyd gan W. Mörmann ac M. Brandestini ym Mhrifysgol Zurich ym 1980 am greu adferiadau deintyddol.

- Cynnwys rhif cofrestru'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn unrhyw ddogfennau'r labordy

### Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ar ôl ymweliad pob claf i gofnodi:

- Caniatâd gwybodus i driniaeth
- Lefelau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol[10]
- Sgrinio ar gyfer canser y geg
- Nid oedd pelydrau-X cleifion bob amser wedi'u cyfiawnhau neu eu hadrodd

Rhaid i'r practis sicrhau bod y canlynol wedi'u cofnodi:

- Amlder pelydrau-X mewn cofnodion cleifion
- Unrhyw adferiadau CEREC mewn cofnodion cleifion
- Rhif cofrestru'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn unrhyw ddogfennau'r labordy

[10] Mae asesiad gofalus o'r meinweoedd periodontol yn rhan hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir Archwiliadau Periodontol Sylfaenol fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei ddarparu gan reolwr y practis. Gwelsom fod amrediad o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ond nid oedd y rhain yn gynhwysfawr. Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, lle'r oedd y staff yn cael eu hannog i gymryd rhan ac i gyfrannu at yr agenda.

Roedd y practis hefyd yn rhoi cyfleoedd i staff ddysgu gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion. Roedd gan y practis raglen sefydlu ar waith gyda disgrifiadau tasg ac asesiadau staff priodol, ond nid oedd rhaglen arfarnu barhaus.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol Crosskeys yn eiddo i'r prif ddeintydd. Mae rheolwr y practis yn goruchwylio'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwnaethom sylwi ar gysylltiadau da rhwng staff yn y practis.

Gwnaethom nodi bod amrediad da o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd gan y rhan fwyaf o'r polisïau ddyddiadau adolygu ac, er mwyn cysondeb, gwnaethom gynghori y dylid cymhwyso hyn i holl bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gyfredol a bod y staff yn hyderus eu bod yn cael mynediad at wybodaeth ac arweiniad perthnasol a chyfredol. Gwnaethom hefyd gynghori y dylai rheolwr y practis ofyn i'r holl staff lofnodi pob polisi i ddangos eu bod wedi ei ddarllen.

Nid oedd gan y practis bolisi amddiffyn rhag ymbelydredd na pholisi dadebru.

Canfuom fod yr holl staff clinigol perthnasol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith. I'r rheini sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat, gwelsom fod eu tystysgrifau

cofrestriad AGIC yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn profi bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrediad o bynciau perthnasol i'w rolau, ond nid oedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion. Mae'n bwysig fod pob aelod o staff sy'n ymwneud â chleifion yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac, mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi argymell diogelu fel pwnc ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Byddem hefyd yn cynghori staff y dderbynfa i gwrdd â'r gofyniad hyfforddiant hwn yn ogystal.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus wrth gyflawni eu rolau. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen sefydlu, er nad oes unrhyw brosesau arfarnu ar waith. Rydym yn argymell bod y practis yn cyflwyno proses arfarnu ffurfiol ar gyfer pob aelod o staff yn y practis.

Nid oedd y practis yn gallu rhoi tystiolaeth fod dau aelod o'i staff clinigol wedi derbyn imiwneiddiad yn erbyn hepatitis B i amddiffyn cleifion a'u hunain rhag heintiau. Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cael ac yn cadw cofnodion ynghylch statws imiwneiddiad hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom ysgrifennu at y practis yn ceisio sicrwydd ar unwaith bod camau brys yn cael eu cymryd i ddatrys hyn.

Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, mae'n ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal, gyda thri chais yn cael eu prosesu ar adeg yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod y practis yn cyflwyno rhaglen o arfarniadau staff ffurfiol bob blwyddyn.

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Nodwyd nad oedd gan un deintydd dystysgrif gyfredol yn dangos ei fod wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. | Os oes argyfwng meddygol, mae'n bwysig fod deintyddion yn gallu cyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd a bod ganddynt sgiliau cynnal bywyd sylfaenol ar gyfer trin oedolion, plant a babanod. | Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis a'r prif ddeintydd at hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. | Cyn gynted ag yr oedd rheolwr y practis yn ymwybodol o hyn, gwnaeth drefniadau i'r deintydd fynychu cwrs. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Crosskeys

### Dyddiad yr arolygiad: 2 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oedd y practis yn gallu darparu cofnodion imiwneiddio ar gyfer un deintydd ac un nyrs ddeintyddol ac nid oeddem yn gallu cadarnhau bod gwiriadau clirio wedi'u cwblhau o ran hepatitis B, hepatitis C a HIV. | Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2 | Canfod ac anfon cofnodion imiwneiddio ar gyfer un deintydd ac un cynorthwy-ydd mewn deintyddfa ymlaen.<br>Adolygu gwiriadau clirio. | PB<br>PB | 2 wythnos<br>2 wythnos |
| Er bod gan y practis ffeil yn cynnwys rhai dogfennau sy'n ymwneud â'r offer ymbelydredd, | Rheoliadau Ymbelydred | Penodi Cynghorydd Amddiffyn rhag | JA | 2 wythnos |

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| nid oedd y rhain yn ddigonol nac yn eglur o ran pwy oedd y Cynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd a pha waith rheoli a dilysu oedd wedi cael ei gyflawni. | d Ïoneiddio 1999 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | Ymbelydredd newydd (mwy na thebyg y DBG). | | |
| Er inni weld sawl anfoneb yn ymwneud â gwiriadau ar ddiffoddwyr tân a phrofion larymau tân, nid oedd tystiolaeth fod cytundeb cynnal a chadw ffurfiol ar waith. | | Gofyn i gwmni Advanced Fire Protection am lythyr yn cadarnhau eu hymrwymiad i'r cytundeb cynnal a chadw ffurfiol. | JA | 3 wythnos |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Enw (llythrennau bras): Jonathan Alexander**

**Swydd: Pennaeth y Practis**

**Dyddiad: 12 Hydref 2017**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Crosskeys

**Dyddiad yr arolygiad:** 2 Hydref 2017

**Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.**

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r practis ddiweddaru ei bolisi a gwybodaeth am gwyno ar gyfer triniaeth breifat er mwyn cynnwys yr holl fanylion cyswllt perthnasol, gan gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | 6.2 Hawliau pobl | Diweddaru ein polisi cwynion i gynnwys yr holl fanylion cyswllt perthnasol, gan gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | Penelope Brotherwood | 8 wythnos |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, byddem yn argymell y dylid cyflogi unigolyn â chymwysterau addas i | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd | Trefnu bod cwmni cymwys yn cwblhau profion dyfeisiau cludadwy ar gyfer y practis i sicrhau defnydd diogel o | Penelope Brotherwood | 8 wythnos |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gwblhau profion dyfeisiau cludadwy trylwyr i sicrhau defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol bach o fewn y practis. | a diogelwch | ddyfeisiau trydanol o fewn y practis. | | |
| Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, argymhellir y dylid gosod sinciau penodol i olchi dwylo ar gyfer staff yn y ddwy ystafell ddadheintio. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Gosod sinc golchi dwylo yn ein dwy ystafell ddadheintio. | Dr J Alexander | 10 wythnos |
| Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, rydym yn argymell y dylai'r practis drefnu rhaglen o arolygiadau cynnal a chadw ar ei holl offer dadheintio. | | Trefnu rhaglen o arolygiadau cynnal a chadw ar yr holl offer dadheintio. | Penelope Brotherwood | 8 wythnos |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau dyddiol o'r cywasgydd yn cael eu cynnal a'u cofnodi. | | Penodi aelod o staff i gwblhau gwiriadau dyddiol o'r cywasgydd a chadw cofnodion o hyn. | Penelope Brotherwood | 6 wythnos |
| Yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, rydym yn argymell y dylid cwblhau archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn a bod unrhyw ganlyniadau/casgliadau yn cael eu cofnodi ynghyd â chynllun | | Cysylltu â'r bwrdd iechyd lleol am enghraifft o archwiliad rheoli heintiau y gallwn ei gwblhau bob blwyddyn, a chreu cynllun gweithredu o'r | Penelope Brotherwood | 8 wythnos |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gweithredu. | | canlyniadau. | | |
| Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau ansawdd a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU). | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Roedd gwiriadau rheolaidd eisoes yn cael eu cyflawni yn y practis. Mae cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu gwirio'n fisol. Archebwyd offer llwybr anadlu newydd ar ddiwrnod yr arolygiad, oherwydd nad oedd dyddiad dod i ben yn glir ar yr offer llwybr anadlu blaenorol a oedd gennym. | Penelope Brotherwood | Wedi'i gyflawni |
| Dylai'r practis ddatblygu polisi dadebru a'i ddosbarthu i bob aelod o staff. | | Bydd pob aelod o staff yn darllen a llofnodi polisi dadebru. | Penelope Brotherwood | 6 wythnos |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan y staff fynediad at a'u bod yn cwblhau hyfforddiant diogelu perthnasol. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl | Cofrestru pob aelod o staff ar gwrs diogelu plant ac oedolion mewn perygl. | Penelope Brotherwood | 6 wythnos |
| Argymhellir y dylai'r practis gyflwyno amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel y bo'n briodol. | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Trefnu cyfarfod â Peninsula i gwblhau amrediad o archwiliadau clinigol o fewn y practis. Yna bydd y rhain yn cael eu monitro fel sy'n briodol a bydd cynlluniau gwella'n cael eu datblygu. | Penelope Brotherwood | 12 wythnos |
| Argymhellir y dylai'r practis osod clo ar y drws i'r ystafell belydr-X i sicrhau mai gyda | 3.4 Llywodraethu gwybodaeth a | Bydd clo yn cael ei osod ar y drws hwn a bydd allwedd yn cael ei chadw gyda | Dr J Alexander | 4 wythnos |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| goruchwyliaeth aelod o staff yn unig y gall cleifion gael mynediad at yr ystafell. | thechnoleg gyfathrebu | rheolwr y practis ar bob adeg. | | |
| Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ar ôl pob ymweliad i gofnodi:<br>• Caniatâd gwybodus i driniaeth<br>• Lefelau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol[11]<br>• Sgrinio ar gyfer canser y geg<br>• Nid oedd pelydrau-X cleifion bob | 3.5 Cadw cofnodion | Bydd y deintyddion yn sicrhau bod y pedwar pwynt a restrir yn cael eu bodloni. | Dr J Alexander | 4 wythnos |

[11] Mae asesiad gofalus o'r meinweoedd periodontol yn rhan hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir Archwiliadau Periodontol Sylfaenol fel dull sgrinio deintyddol i wirio statws periodontol claf.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| amser wedi'u cyfiawnhau neu eu hadrodd | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod y canlynol wedi'u cofnodi:<br>• Amlder pelydrau-X yng nghofnodion y cleifion<br>• Unrhyw adferiadau CEREC mewn cofnodion cleifion<br>• Rhif cofrestru'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn unrhyw ddogfennau'r labordy | 3.5 Cadw cofnodion | Rydym bellach wedi diweddaru ein taflenni labordy ar adferiadau CEREC i gynnwys ein rhif labordy ac mae'r rhain yn awr yn cael eu sganio i mewn i ffeil y claf fel eu bod yn gallu cael eu canfod yn hawdd pe bai eu hangen arnom. | Dr J Alexander | Wedi'i gyflawni |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Argymhellir bod y practis yn cyflwyno rhaglen o arfarniadau staff ffurfiol bob blwyddyn. | 7.1 Y gweithlu | Mae gennym slotiau ar gyfer arfarniadau staff wedi'u cofnodi yn y dyddiadur a bydd y rhain yn dechrau ym mis Rhagfyr | Penelope Brotherwood | 8 wythnos |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | ac yn parhau'n flynyddol ar ôl y dyddiad hwnnw. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Penelope Brotherwood

## Swydd: Rheolwr y Practis

## Dyddiad:1 Tachwedd 2017